

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Clinig Croen a Laser Beauty
Advance

Dyddiad arolygu: 25 Mawrth 2019

Dyddiad cyhoeddi: 26 Mehefin
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	13
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	19
4.	Beth nesaf?	21
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Glinig Croen a Laser Beauty Advance ar 25 Mawrth 2019.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, gydag un ohonynt yn arwain yr arolygiad.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Nodwyd gennym fod Clinig Croen a Laser Beauty Advance yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth effeithiol a rhoi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Roedd yr amgylchedd yn lân, wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn addas i roi triniaethau laser. Roedd prosesau ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl reoliadau perthnasol ac amodau ei gofrestrriad ag AGIC ar ddiwrnod yr arolygiad.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i'r cleifion er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.
- Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i wella gwasanaethau ac yn mynd ati i geisio adborth gan y cleifion.
- Roedd trefniadau priodol ar waith ar gyfer atal a rheoli heintiau.
- Mae'r gwasanaeth yn cadw cofnodion clinigol ardderchog yn unol â safonau proffesiynol.
- Roedd dogfennaeth ar gael i ddangos bod y peiriannau laser/IPL yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen diweddarau'r canllaw i gleifion yn unol â rheoliadau.
- Dylai pob gweithredwr laser gael hyfforddiant amddiffyn plant priodol.
- Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ei gwneud hi'n haws nodi pa sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n addas i'w defnyddio gyda phob atodiad ar un o'r peiriannau laser.
- Dylai pob gweithredwr laser ddangos dealltwriaeth well o'r protocolau triniaeth ar gyfer pob peiriant laser/IPL.

Gwnaethom nodi'r meysydd canlynol lle nad yw'r clinig yn cydymffurfio â rheoliadau perthnasol ac amodau ei gofrestrriad ag AGIC:

- Nid oedd y gwasanaeth wedi penodi Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig er mwyn rhoi cymorth i'r gwasanaeth gyda diogelwch y peiriannau laser/IPL.
- Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi sicrhau bod y rheolau lleol ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser/IPL yn ddiogel wedi cael eu hadolygu'n flynyddol o leiaf gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac felly cyflwynwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio i'r gwasanaeth. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, cafodd AGIC sicrwydd digonol ynghylch y camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r gwelliannau sydd eu hangen.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Clinig Croen a Laser Beauty Advance wedi'i gofrestru'n ysbyty annibynnol i ddarparu gwasanaethau laser yn 6-8 Morgan Arcade, Caerdydd, CF10 1AF.

Roedd y gwasanaeth wedi'i gofrestru ag AGIC yn ei leoliad blaenorol yn yr Eglwys Newydd, ond cafodd ei ailgofrestru ar 15 Ionawr 2018 i ddarparu gwasanaethau o'i leoliad newydd.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi pedwar aelod o staff, sy'n cynnwys y rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn weithredwr peiriannau laser/IPL, dau weithredwr peiriannau laser/IPL arall ac un derbynydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau gan gynnwys:

- Gwaredu gwallt
- Isgoch agos (tynhau'r croen)
- Triniaeth acne weithredol
- Adfywio'r croen
- Pigmentiad
- Gwaredu tatŵau
- Gwaredu gwythiennau edau
- Triniaeth picsel main heb fod yn abladol ar gyfer crychau ysgafn a chreithiau acne
- Ffwngws ewinedd.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod ymgynghoriadau a thriniaethau.

Roedd y gwasanaeth yn sicrhau bod y cleifion yn cael gwybodaeth fanwl cyn y driniaeth ac ar ei hôl er mwyn eu helpu i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth.

Nodwyd gennym fod angen diweddarau'r canllaw i gleifion er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y gwasanaeth i ddsbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 8 holiadur.

Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol a nododd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y gofal a'r driniaeth roeddent wedi'u cael yn 'ardderchog'.

Ymhlith sylwadau'r cleifion a oedd yn canmol y gwasanaeth yn y clinig roedd y canlynol:

"Staff cyfeillgar a gwybodus"

"Mae'r driniaeth wedi bod yn ardderchog"

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Gwelsom fod y clinig yn gofyn i'r cleifion gwblhau ffurflen hanes meddygol cyn y driniaeth gychwynnol, ac yn holi a oedd unrhyw newidiadau ym mhob apwyntiad dilynol er mwyn helpu i sicrhau bod y driniaeth yn cael ei darparu mewn modd diogel.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y clinig yn gofyn iddynt lenwi ffurflen hanes meddygol, neu fod rhywun yn gwirio eu hanes meddygol, cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Urddas a pharch

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno iddo gael ei drin ag urddas a pharch gan y staff yn y clinig ac yn teimlo ei fod yn gallu cynnal ei breifatrwydd, ei urddas a'i wedduster ei hun bob amser yn ystod apwyntiadau. Cawsom wybod bod y drws i'r ystafell driniaeth bob amser wedi'i gloi yn ystod triniaeth a bod y cleifion yn cael llonydd yn yr ystafell driniaeth i dynnu eu dillad os oedd angen.

Cynhelir ymgynghoriadau â'r cleifion yn yr ystafell driniaeth er mwyn sicrhau y gellir trafod gwybodaeth gyfrinachol a phersonol heb i unrhyw un arall glywed.

Gwybodaeth i gleifion a chydysniad cleifion

Nodwyd gennym fod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad hyddysg ynglŷn â'u triniaeth. Mae hyn oherwydd bod y cleifion yn cael ymgynghoriad wyneb yn wyneb cyn triniaeth laser. Mae'r drafodaeth hon yn cynnwys risgiau, manteision a chanlyniad tebygol y driniaeth a gynigir. Mae gwybodaeth am bob triniaeth hefyd ar gael ar wefan y clinig.

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth er mwyn ei helpu i ddeall yr opsiynau o ran triniaeth a oedd ar gael iddo a'r risgiau a'r manteision a oedd yn gysylltiedig â phob opsiwn. Dywedodd pob un ond un o'r cleifion wrthym eu bod bob amser yn cael eu hysbysu am gost unrhyw driniaeth cyn iddynt gael y driniaeth.

Lle y bo'n berthnasol, dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod bob amser yn llofnodi ffurflen gydsyniad cyn cael unrhyw driniaeth newydd.

Cawsom wybod bod y cleifion yn cael cyngor ôl-ofal. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal ar sut i atal haint a chynorthwyo'r broses wella ar ôl y driniaeth. Byddem yn awgrymu bod y rheolwr cofrestredig yn myfyrio ar yr adborth hwn ac yn adolygu'r cyfarwyddiadau ôl-ofal a ddarperir i'r cleifion ar gyfer pob triniaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysfawr.

Cyfathrebu'n effeithiol

Rhoddodd y rheolwr cofrestredig ddatganiad o ddiben manwl i ni a oedd yn cynnwys y wybodaeth hanfodol fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd canllaw i gleifion wedi'i gynnwys mewn ffolder gwybodaeth i gleifion a oedd yn

cael ei arddangos yn yr ardal aros. Gwnaethom sylwi bod y canllaw i gleifion yn cynnwys y rhif ffôn anghywir i gleifion gysylltu ag AGIC.

Dyweddodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Dyweddodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur hefyd fod y staff wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad a'u bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys, cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys, mewn penderfyniadau ynghylch eu triniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion er mwyn cynnwys y rhif ffôn cywir ar gyfer AGIC, a darparu copi i AGIC.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth bod apwyntiadau ymgynghori cychwynnol a gynhelir cyn rhoi triniaeth yn cael eu dogfennu mewn ffurflenni papur a oedd wedi cael eu llofnodi a'u dyddio gan y claf, a'u cydlofnodi gan y gweithredwr laser. Dywedwyd wrthym fod pob claf naill ai'n cael prawf clytiau cyn y driniaeth er mwyn pennu gosodiad laser diogel ac effeithiol ar gyfer ei groen a'i fath o wallt, neu bod y clinig yn gofyn iddo lofnodi ymwadiad os yw'n gwrthod cael y prawf.

Gwelsom dystiolaeth o brosesau rhagorol ar gyfer cadw cofnodion. Roedd y clinig yn cynnal cofrestr electronig gynhwysfawr o driniaethau cleifion a oedd yn cael ei chadw yn unol â safonau a chanllawiau proffesiynol a'i diweddarau gan weithredwyr laser ym mhob apwyntiad.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae Clinig Croen a Laser Beauty Advance wedi'i rannu dros ddau lawr. Er bod ystafell driniaeth hygyrch ar y llawr gwaelod, mae toiled y cleifion i lawr y grisiau. Er yr esbonnir hyn yn y datganiad o ddiben, rydym yn argymhell y dylid tynnu sylw'r cleifion at y problemau hygyrchedd hyn yn y canllaw i gleifion hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion mewn perthynas â sut y gall cleifion â phroblemau symudedd gael mynediad i'r clinig, a darparu copi i AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith i geisio adborth gan y cleifion, fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Cysylltir â'r cleifion dros e-bost yn rheolaidd er mwyn iddynt roi adborth, ac anogir y cleifion hefyd i gwblhau adolygiad ar Facebook neu Google ynghylch eu profiad yn y clinig. Cawsom wybod yr ymatebir i unrhyw sylwadau negyddol yn unigol os yw hynny'n briodol er mwyn esbonio sut y bydd y clinig yn gwella o ganlyniad i'r adborth.

Fodd bynnag, dywedodd traean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn ymwybodol bod y clinig yn ceisio eu barn am y gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu, er enghraifft, drwy ddefnyddio holiaduron cleifion.

Er bod dolenni i'w lwyfannau electronig wedi'u cynnwys yn y canllaw i gleifion, rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth ddatblygu'r adran hon yn y canllaw i gleifion fel ei bod yn cynnwys crynodeb o adborth cleifion fel sy'n ofynnol yn ôl y rheoliadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion er mwyn cynnwys crynodeb o adborth cleifion, a darparu copi i AGIC.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd y gwasanaeth i'w weld yn lân ac yn daclus, ac roedd prosesau rheoli heintiau da ar waith.

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw dan glo er mwyn atal mynediad heb awdurdod atynt.

Roedd y gwasanaeth yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel, ond roedd angen hyfforddiant amddiffyn plant ar y gweithredwyr laser ac roedd angen diweddarau'r polisïau diogelu.

Mae angen i'r gwasanaeth sefydlu trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol er mwyn monitro cydymffurfiaeth â rheoliadau perthnasol ac amodau ei gofrestrriad; yn benodol mewn perthynas â phenodi Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ardystiedig a chael cymorth parhaus ganddo.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Nodwyd gennym fod trefniadau ar waith i ddiogelu'r staff a'r bobl sy'n ymweld â'r safle a sicrhau eu llesiant.

Gwnaethom edrych ar ddetholiad o drefniadau cynnal a chadw ar gyfer y safle. Gwelsom dystiolaeth bod cofnodlyfr Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) yn gyfredol, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel ac addas.

Gwelsom dystiolaeth y gwnaed gwaith i osod gwifrau newydd ac addasu rhai presennol ym mis Tachwedd 2017 pan oedd y clinig yn y broses o symud i'w leoliad newydd.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau mewn perthynas â diogelwch tân. Gwelsom fod profion larwm tân ac ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd a'u cofnodi mewn cofnodlyfr. Gwelsom dystiolaeth bod y diffoddwyr tân yn cael eu gwasanaethu bob blwyddyn. Nodwyd gennym hefyd fod arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys priodol ar gael ac roedd un aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y lleoliad; roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y safle yn 'lân iawn'.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau ar gyfer rheoli heintiau yn y clinig a oedd yn gyson â'r gweithdrefnau a amlinellir yn ei bolisi rheoli heintiau. Gwelsom fod amserlen lanhau ar waith ac yn cael ei diweddar'u rheolaidd.

Nodwyd gennym fod trefniadau addas ar waith ar gyfer storio a chasglu gwastraff.

Roedd toiled neillryw at ddefnydd y staff a'r cleifion i lawr y grisiau, ond nid oedd unrhyw gyfleusterau gwaredu deunyddiau misglwyf ar gael. Rhaid cael gafael ar fin gwastraff deunyddiau misglwyf.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth drefnu bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei roi yn y toiled neillryw.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 16 oed a chadarnhaodd y staff fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn. Cawsom wybod bod y clinig yn gofyn am ganiatâd gan riant i roi triniaeth i gleifion sy'n 16 neu'n 17 oed, ac ni chaniateir i unrhyw blant sy'n dod gydag oedolion sy'n derbyn triniaeth fynd i mewn i'r ystafelloedd triniaeth.

Gwelsom nad oedd y gweithredwyr laser wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant. Yng Nghymru, diffinnir plentyn fel person sydd dan 18 oed ac, er y dywedodd staff y clinig wrthym eu bod yn gofyn i rieni neu warcheidwaid fod yn bresennol pan fydd plant dan 18 oed yn derbyn triniaeth, byddem yn argymhell bod yr holl weithredwyr laser yn derbyn hyfforddiant amddiffyn plant.

Gwelsom dystiolaeth bod y gweithredwyr laser wedi cael hyfforddiant priodol ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed.

Gwelsom fod polisïau ar wahân ar waith ar gyfer diogelu plant ac oedolion a oedd yn cynnwys gweithdrefnau i'r staff eu dilyn pe bai unrhyw bryderon

ynghylch diogelu unigolion. Fodd bynnag, nid oedd y naill bolisi na'r llall yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer asiantaethau diogelu lleol perthnasol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob gweithredwr laser gael hyfforddiant amddiffyn plant a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.

Mae angen diweddarau'r polisïau diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu lleol perthnasol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom dystiolaeth bod y ddau beiriant laser/IPL wedi cael eu gwasanaethu a'u calibradu¹ yn rheolaidd yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom fod protocolau triniaeth ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser/IPL yn ddiogel wedi darford. Cyn diwedd yr arolygiad, darparodd y clinig dystiolaeth bod protocolau triniaeth a ddiweddarwyd yn ddiweddar wedi cael eu harolygu a'u cyhoeddi gan ymarferydd meddygol arbenigol. Rydym yn argymhell y dylai pob gweithredwr laser lofnodi datganiad yn cadarnhau ei fod wedi darllen a deall y protocol triniaeth ar gyfer pob peiriant laser/IPL.

Ni allai'r rheolwr cofrestredig ddarparu tystiolaeth bod contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau er mwyn rhoi cymorth parhaus ac amserol i'r gwasanaeth o ran diogelwch y peiriannau laser/IPL a defnydd gweithredol o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y contract blaenorol â Chynghorydd Diogelu rhag Laserau wedi dod i ben ym mis Tachwedd 2018.

Gwelsom hefyd yn ystod yr arolygiad fod y rheolau lleol sydd ar waith yn y gwasanaeth, sy'n llywodraethu defnydd diogel o'r peiriannau laser/IPL, wedi

¹Gall calibradu rheolaidd helpu i sicrhau bod perfformiad y peiriant laser yn parhau'n gyson dros amser, gan sicrhau'r perfformiad gorau ac allbwn o'r ansawdd uchaf.

cael eu cyflwyno ddiwethaf gan gynghorydd blaenorol y clinig yn 2017.² Mae hyn yn torri amodau cofrestriad y gwasanaeth sy'n gofyn bod y rheolau lleol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn o leiaf gan arbenigwr perthnasol ym maes laserau neu oleuni pwls dwys (gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau).

Felly ni allai'r rheolwr cofrestredig ein sicrhau ar ddiwrnod yr arolygiad bod triniaethau'n cael eu darparu yn unol â chanllawiau proffesiynol i sicrhau lles a diogelwch y cleifion. Ymdriniwyd â'r pryderon hyn drwy hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai pob gweithredwr laser lofnodi datganiad yn cadarnhau ei fod wedi darllen a deall y protocol triniaeth ar gyfer pob peiriant laser/IPL.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod pob gweithredwr laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth³. Gan fod yr hyfforddiant Craidd Gwybodaeth wedi'i gwblhau yn 2015, byddem yn cynghori'r rheolwr cofrestredig i ystyried dilyn hyfforddiant gloywi. Roedd pob gweithredwr laser hefyd wedi cael hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser/IPL gan y gwneuthurwr.

Gwelsom fod sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n benodol ar gyfer pob peiriant laser/IPL ar gael i'r cleifion a'r gweithredwyr laser. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y sbectolau'n cael eu harchwilio'n rheolaidd i weld a oeddent wedi'u difrodi. Roedd gan un sbectol ym mhob ystafell driniaeth badiau trwyn rwber rhydd. Cadarnhaodd y gwasanaeth fod sbectolau newydd priodol wedi cael eu harchebu ond gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i dynnu'r ddwy sbectol ddiffygiol o'r ystafelloedd i leihau'r risg bosibl o beri niwed i'r cleifion.

²Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

³Hyfforddiant ar hanfodion defnyddio laserau a systemau IPL yn ddiogel

Gwelsom fod sawl math o sbectolau ar gael ar gyfer y peiriant laser deuod Alma Soprano ac Alexandrite (Soprano Ice) o ganlyniad i gryfderau amrywiol y tonfeydd a ddarperir gan atodiadau laser gwahanol y peiriant. Roedd yr holl sbectolau wedi'u gosod wrth ymyl ei gilydd ar silff. Rydym yn argymhell y dylai'r gwasanaeth roi system ar waith er mwyn ei gwneud hi'n haws nodi pa sbectolau sy'n addas i'w defnyddio gyda phob atodiad ar y peiriant laser i leihau'r risg bod y sbectol anghywir yn cael ei defnyddio yn ystod triniaethau.

Nid oedd unrhyw gleifion yn cael eu trin ar ddiwrnod yr arolygiad, ond disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y broses yn fanwl a chadarnhaodd y caiff yr ystafell driniaeth ei chloi pan fydd y peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal unrhyw bobl heb awdurdod rhag mynd i mewn yn ystod triniaethau.

Ar ddiwrnod yr arolygiad roedd dau arwydd y tu allan i ddrws pob ystafell driniaeth er mwyn rhybuddio pobl eu bod yn mynd i mewn i ardal lle defnyddir laserau. Gwelsom fod y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau blaenorol wedi argymhell ar ôl ei ymweliad olaf â'r clinig y dylid tynnu un o'r arwyddion rhybuddio er mwyn osgoi dryswch. Unwaith y tynnwyd sylw'r rheolwr cofrestredig at hyn, tynnodd un o'r arwyddion oddi ar ddrws y ddwy ystafell driniaeth yn ystod yr arolygiad. Rydym yn cynghori'r gwasanaeth i adolygu unrhyw gamau gweithredu a argymhellir gan Gynghorydd Diogelu rhag Laserau ac ymdrin â nhw ar unwaith yn y dyfodol.

Rhoddwyd gwybod i ni y caiff y peiriannau laser/IPL eu cadw'n ddiogel ar bob adeg a, phan nad ydynt yn cael eu defnyddio, y caiff yr allweddi actifadu eu cuddio mewn man diogel.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r gwasanaeth roi system ar waith er mwyn ei gwneud hi'n haws nodi pa sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n addas i'w defnyddio gyda phob atodiad ar y peiriant laser deuod Alma Soprano ac Alexandrite (Soprano Ice).

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth bod systemau addas ar waith yn y clinig i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Er enghraifft, yn dilyn triniaeth, roedd y gwasanaeth yn rhoi cyfle i'r cleifion roi adborth ar eu profiad drwy holiaduron ac adolygiadau ar-lein. Mae'n rhaid i weithredwyr laser dan hyfforddiant hefyd gwblhau rhaglen sefydlu ac mae'n rhaid i uwch-weithredwr laser oruchwyllo eu triniaethau cychwynnol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni yn unol â chanllawiau proffesiynol.

Rheoli cofnodion

Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei chadw'n ddiogel gyda'r holl gofnodion papur yn cael eu storio mewn cabinet y gellid ei gloi. Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion y cleifion a chanfod tystiolaeth bod nodiadau'r cleifion yn cael eu cynnal i safon uchel.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn gyfrifol am reoli'r gwasanaeth a gweithrediad y peiriannau laser/IPL o ddydd i ddydd.

Roedd systemau ar waith er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau yn cael eu diweddarau'n rheolaidd.

Roedd y staff yn ymddangos yn hapus iawn yn eu rolau a gwelsom fod pob gweithredwr laser awdurdodedig yn meddu ar yr hyfforddiant priodol a'r wybodaeth berthnasol i ddarparu triniaeth ddiogel i'r cleifion.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Clinig Croen a Laser Beauty Advance yn eiddo i'r rheolwr cofrestredig sydd hefyd yn weithredwr peiriant laser/IPL. Ceir tri aelod arall o staff, gan gynnwys dau weithredwr peiriant laser/IPL. Gwelsom fod gan y gwasanaeth nifer o bolisïau ar waith sy'n cael eu hadolygu bob chwe mis. Mae'n ofynnol i'r staff lofnodi tudalen ar wahân i ddangos eu bod wedi darllen a deall yr holl bolisïau yn hytrach na llofnodi pob polisi yn unigol.

Dywedwyd wrthym nad yw cyfarfodydd staff gyda'r tîm cyfan yn cael eu trefnu fel mater o drefn, ond y cânt eu cynnal yn rheolaidd drwy'r flwyddyn. Cymerir cofnodion yn y cyfarfodydd hyn i sicrhau bod unrhyw un nad yw'n gallu mynd i gyfarfod yn gallu cael gwybod am faterion a drafodwyd a phenderfyniadau a wnaed.

Gwelsom fod gan y gwasanaeth dystysgrif yswiriant atebolrwydd briodol a chyfredol a oedd yn cael ei harddangos i lawr y grisiau wrth ymyl un o'r ystafelloedd triniaeth.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gan y gwasanaeth weithdrefn gwyno a oedd yn cynnwys manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoliadol. Roedd crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben ac yn y canllaw i gleifion.

Gwelsom fod systemau addas ar waith i gofnodi a rheoli unrhyw gwynion ffurfiol neu anffurfiol a phryderon y bydd y clinig yn eu derbyn.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Fel y soniwyd yn gynharach yn yr adroddiad, gwelsom dystysgrifau yn dangos bod y gweithredwyr laser wedi cwblhau'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ynghyd â'r hyfforddiant ar sut i ddefnyddio'r peiriannau laser/IPL drwy ganllawiau'r gwneuthurwr.

Dyweddodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y staff yn gallu cael hyfforddiant rheolaidd i ddatblygu eu sgiliau ac y caiff nodiadau cleifion eu harchwilio'n rheolaidd gan y rheolwr cofrestredig er mwyn monitro ac asesu ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan y gweithredwyr laser.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod y staff wedi cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS⁴) er mwyn helpu i ddiogelu cleifion rhag y perygl o ofal a thriniaeth amhriodol neu anniogel.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig broses briodol ar gyfer recriwtio a sefydlu, gan gynnwys gwiriadau cyflogaeth a geirdaon ysgrifenedig, er mwyn helpu i sicrhau bod gan y staff y sgiliau cywir a'r wybodaeth gywir i gyflawni'r rôl.

Dyweddwyd wrthym y cynhelir arfarniadau staff bob chwe mis.

⁴Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau sy'n agored i niwed. Mae'n cymryd lle'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad

Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni

Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru

Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach

Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol gael eu cynnal â rhybudd neu'n ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd. Mewn rhai amgylchiadau, byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, sy'n golygu y bydd y gwasanaeth yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)

Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)

Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Clinig Croen a Laser Beauty Advance

Dyddiad arolygu: 25 Mawrth 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion er mwyn cynnwys y rhif ffôn cywir ar gyfer AGIC, a darparu copi i AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Mae hwn wedi cael ei gwblhau'n llawn ac mae eisoes wedi cael ei anfon.	India	Cwblhawyd
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion mewn perthynas â sut y gall cleifion â phroblemau symudedd gael mynediad i'r clinig, a darparu copi i AGIC.	Rheoliad 7	Dechreuwyd cwblhau hyn ar 16/05/2019 a gobeithir ei orffen yn fuan.	India	I'w gwblhau erbyn 01/07/19
Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ddiweddarau ei ganllaw i gleifion er mwyn cynnwys crynodeb o adborth cleifion, a darparu copi i AGIC.		Gwnaethom argraffu un ar ddiwrnod yr arolygiad ac rydym yn ei ddiweddarau bob pythefnos.	India	Cwblhawyd

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylai'r gwasanaeth drefnu bod bin gwaredu deunyddiau misglwyf yn cael ei roi yn y toiled neillryw.	Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch – Rheoliadau Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith	Mae contract yn cael ei drafod â PHS ac rydym yn aros am contract terfynol.	Daniela	31/05/19
Dylai pob gweithredwr laser gael hyfforddiant amddiffyn plant a dylid cyflwyno tystiolaeth bod yr hyfforddiant wedi'i gwblhau i AGIC.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011	Rydym wrthi'n chwilio am gwrs felly rydym yn gobeithio trefnu un y mis hwn.	India	01/07/19
Mae angen diweddarau'r polisiâu diogelu plant ac oedolion er mwyn cynnwys manylion cyswllt asiantaethau diogelu lleol perthnasol.	Rheoliad 16 Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng	Rydym wedi dod o hyd i'r manylion cyswllt cywir i ddiweddarau'r rhain ond rydym yn y broses o ychwanegu hyn at ein Polisi Diogelu.	India	01/07/19

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	Nghymru Safon 11			
Dylai pob gweithredwr laser lofnodi datganiad yn cadarnhau ei fod wedi darllen a deall y protocol triniaeth ar gyfer pob peiriant laser/IPL.	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 45 (3)	Wedi'i lofnodi gan ddau aelod o staff llawn amser (India Evans a Raveena Bhogal)	India	Cwblhawyd
Dylai'r gwasanaeth roi system ar waith er mwyn ei gwneud hi'n haws nodi pa sbectolau amddiffyn y llygaid sy'n addas i'w defnyddio gyda phob atodiad ar y peiriant laser deuod Alma Soprano ac Alexandrite (Soprano Ice).	Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 Rheoliad 15 (1)	Mae'r un sbectolau amddiffyn y llygaid rhag laser yn addas ar gyfer y peiriant Deuod Alma Soprano a'r Alexandrite, felly mae sticer melyn arnynt er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt a'r sbectolau eraill a ddefnyddir ar gyfer y peiriant N.I.R.	India	Cwblhawyd

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ni wnaed unrhyw argymhellion.

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): India Evans

Swydd: Rheolwr

Dyddiad: 16/05/19